

37. BLAENORIAETHAU
(Stori o Brazil)

Roedd Rodrigo'n byw ar gyrion tref Porto Velho. Enw'r ardal oedd Jardin das Mangueiras. Ystyr yr enw yw 'gardd mangos'. Os gwna'r enw hwn i chi feddwl am ffrwythau pêr a golygfeydd hardd yna rydych ymhell ohoni. Oherwydd y gwir amdani oedd fod Rodrigo yn byw mewn un o dri deg o gytiau oedd wedi eu codi ar ddarn eang o dir diffaith.

Nid oedd mangos yn agos i'r lle, a phe câi'r tirfeddiannwr cefnog oedd yn ffermio gerllaw ei ffordd fyddai yno ddim cytiau ychwaith. 'Ewch i ffwrdd!' meddai wrth drigolion y cytiau. 'Fy eiddo i yw Jardin das Mangueiras ac mae gen i'r papurau i brofi hynny.' Yn ffodus daeth arweinwyr eglwys Rodrigo i achub y dydd, gan fynd at y llywodraeth a phrynu clwt o dir yng nghanol Jardin das Mangueiras.

'Mae'r ffaith iddynt fedru ei brynu'n profi mai papurau ffug oedd rhai'r tirfeddiannwr,' eglurodd rhieni Rodrigo. 'Fedr o ddim ein troi ni allan nawr. Rydyn ni'n ddiogel.'

Dyna, o bosibl , pryd y plannwyd hedyn cyntaf cynllun go arbennig ym mhen y bachgen. Nawr ei fod yn gwybod na châi ei deulu eu troi allan o Jardin das Mangueiras, dechreuodd freuddwydio am gael tŷ gwell yn lle'r hen gwt tila. Y cwbl roedd ei angen oedd ychydig o benderfyniad a llawer o frics.

Felly, tra oedd arweinwyr yr eglwys yn trafod sut i ddatblygu'r

clwt o dir, breuddwydiai Rodrigo am gael byw mewn tŷ o frics.

Un noswaith, wrth ddod adref o'r ysgol, arhosodd wrth safle adeiladu gan sylwi'n arbennig ar dechneg yr adeiladwyr. Gwelodd fel yr oeddent yn llenwi'r twll gwag yn y brics llyfn sgleiniog â choncrit cyn eu gosod gefn wrth gefn ar hyd y waliau. (Mae brics Brazil yn fwy na'n brics ni ac yn ddrutach.) Roeddent yn adeiladu bynglo – yr union fath o fynglo yr hoffai ei gael iddo'i hunan. Penderfynodd fod yr amser wedi dod i weithredu. Dewisodd yr adeiladwr mwyaf caredig yr olwg ac aeth ato.

'Helô,' meddai'n llawen. 'Rodrigo yw fy enw i. Gaf i fricsen os gwelwch yn dda?'

'Bricsen?' meddai'r adeiladwr gan sythu a sychu'r chwys oddi ar ei dalcen. Beth fyddai llanc dengmlwydd oed fel ti yn ei wneud â bricsen?'

'Plîs ...' meddai Rodrigo a gwên ymbilgar ar ei wyneb.

'O'r gorau 'te.' Dewisodd y gŵr un o'r brics o'r pentwr wrth ei ochr. Roedd tolc bychan ynddi felly doedd ganddo ddim bwriad i'w defnyddio.

'Diolch yn ofnadwy!' Cymerodd Rodrigo'r fricsen ac wedi ei gwthio i'w fag ysgol i ffwrdd ag ef.

'Fe gefais i fricsen heddiw,' cyhoeddodd yn llawn balchder y funud y cyrhaeddodd adref.

'Hwrê!' gwaeddodd Gleison, ei frawd bach wyth oed. Yn eiddgar, tynnodd y fricsen allan o fag ysgol Rodrigo a'i chario i gefn y tŷ.

Y Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn eu heglwys. Siaradai'r Gweinidog Roberto am gynlluniau'r eglwys ar gyfer Jardin das Mangueiras.

Yn eiddgar, gwrandawodd Rodrigo a Gleison wrth i'r cynlluniau gael eu datgelu.

'Rydyn ni am adeiladu eglwys yn Jardin das Mangueiras – adeilad aml-ddefnydd fydd yn ganolfan gymunedol hefyd. Wrth wneud hyn, gallwn redeg rhaglenni iechyd yma a chlybiau plant a chynllun amaethyddol yn ogystal â chynnal gwasanaethau ar y Sul,' eglurodd y Gweinidog.

Clwb plant. Grêt!

'Mae ganddon ni dîm o adeiladwyr yn barod i gychwyn ar y gwaith,' aeth y Parch. Roberto yn ei flaen. 'Ond nid oes gennym ddeunydd ar gyfer adeiladu.' Cymerodd saib ac edrych ar y

gynulleidfa. ‘Felly, heno, rwy’n gofyn am addewidion. Mae angen rhyw 3,000 o frics i adeiladu tŷ Duw yn Jardin das Mangueiras. Hoffwn i chi i gyd weddïo’n daer ynglŷn â hyn a chwilio’ch calonnau i ddarganfod faint o frics rydych yn teimlo fod Duw am i chi eu cyfrannu.’

Bu ennyd o dawelwch. Trodd Rodrigo i edrych ar Gleison. Amneidiodd y bachgen ieuengaf ei ben. A saethodd llaw Rodrigo i fyny.

‘Os gwelwch yn dda, Parch. Roberto, mae fy mrawd a finnau’n addo 200 o frics.’

Dau gant o frics! Blinciodd Roberto, gan feddwl tybed a oedd wedi camddeall y llanc. Sut ar y ddaear y gallai dau fachgen heb geiniog i’w henw gael gafael ar 200 o frics? ‘Wel, diolch i ti, Rodrigo.’ Cuddiodd ei syndod, gan wneud penderfyniad yn dawel bach i gael gair â mam y bechgyn.

Am yr eildro edrychodd y ddau fachgen ar ei gilydd gan wenu. Roeddent yn ymwybodol eu bod wedi codi aeliau sawl un yn y gynulleidfa. Roedd amryw’n methu gwybod sut goblyn y gallai’r ddau gyflawni eu haddewid. Ond ni wyddai’r bobl hyn fod Rodrigo a Gleison wedi bod wrthi ar y ffordd adref o’r ysgol bob dydd dros y pedwar mis ar ddeg diwethaf yn casglu brics a daflwyd o’r neilltu o safleoedd adeiladu a iardiau adeiladwyr. Ambell wythnos ni chaent frics o gwbl. Dro arall caent dair neu bedair gyda’i gilydd. A’r wythnos honno roedd Rodrigo wedi derbyn ei ddeucanfed bric oddi wrth yr adeiladwr cyfeillgar. Oedd, roedd y cwbl o’r brics wedi eu pentyrru’n dwt y tu allan i gwt y bechgyn. Wrth gwrs, bwriad gwreiddiol y bechgyn oedd eu defnyddio i adeiladu tŷ iddynt hwy eu hunain. Ond byddai’n rhaid i’r freuddwyd honno aros.

Roedd y tŷ ar gyfer gwaith Duw i gael blaenoriaeth.

HYD: 4–5 munud

NEGES: Yn llyfr Haggai mae Duw’n ceryddu ei bobl am fyw mewn tai da tra oedd ei Deml ef yn adfail. Pan gawn y dewis o wneud rhywbeth drosom ein hunain neu wneud rhywbeth dros Dduw, beth fydd ein dewis?

DARLLEN: Haggai 1: 1–5; Ioan 6: 1–14